

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau

Cymdeithasol

16 Rhagfyr 2022

Y gweithlu gofal plant

Annwyl Julie,

Yn ystod trafodaeth ddiweddar yn y Pwyllgor ar y flaenraglen waith, cytunwyd i ofyn am ragor o wybodaeth am y gweithlu gofal plant. Rydym yn ymwybodol, gyda Chynnig Gofal Plant presennol Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cydweithio i ehangu gofal plant am ddim i bawb mewn dwy flynedd, gan gynnwys ffocws ar ddarparu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, mai un elfen allweddol i gyflawni'r ymrwymiadau hyn fydd cael nifer digonol o weithwyr gofal plant proffesiynol hyfforddedig ledled Cymru.

Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar ofal plant "[Gwarchod y Dyfodol](#)" ac yn benodol eu hargymhelliad ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, gwnaeth y Llywodraeth [ddatgan](#) byddai adolygiad o'r cynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu'r gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr adolygiad hwn, pryd rydych chi'n disgwyl iddo gael ei gwblhau, ac ymrwymo i rannu copi o'r adolygiad â'r Pwyllgor pan fydd wedi'i gwblhau?

Gan fod gennym feysydd diddordeb cyffredin, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Mercher 18 Ionawr.

Yn gywir



Jayne Bryant AS



Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.